

Camau gweithredu polisi ar
gyfer Ynni gwynt, tonnau a
llanwol yng Nghymru



RENEWABLEUK CYMRU MANIFFESTO —2011

Cynnwys

Rhagarweiniad	2
Trosolwg	3
Cyfraniad economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol	4
Gwynt ar y tir	6
Gwynt ar y môr	8
Tonnau a llanwol	10

Rhagarweiniad

Mae RenewableUK Cymru yn rhan o gymdeithas fasnach ynni adnewyddadwy flaenaf y DU ac mae'n cynrychioli'r diwydiannau gwynt a morol adnewyddadwy yng Nghymru.

Bendithiwyd Cymru ag adnodd gwynt, tonnau a llanwol sy'n destun eiddigedd, cronfa gynyddol o arbenigedd a threftadaeth ddiwydiannol y gellir ei defnyddio ar gyfer gweithgynhyrchu, cydosod ac adeiladu. Mae ganddi'r gallu i fod yn ganolfan rhagoriaeth o'r safon uchaf ar gyfer ynni adnewyddadwy.

Ynni gwynt yw'r ffynhonnell ynni adnewyddadwy sydd wedi bod yn tyfu gyflymaf yn y byd yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ac mae disgwyl i'r duedd hon barhau gyda chostau'n disgyn a'r angen rhyngwladol brys i fynd i'r afael ag allyriadau CO₂ i liniaru newid hinsawdd. Mae'n bwysig bod y technolegau ynni adnewyddadwy embryonig a gynlluniwyd i fanteisio ar botensial adnoddau tonnau a llanwol yn cael eu cynorthwyo yn eu datblygiad tuag at gynhyrchu ar raddfa eang a'u masnachu. Bydd dilyn y datblygiadau ynni gwynt, sef y dechnoleg fwyaf ymarferol ac aeddfed sy'n bod ar hyn o bryd a all gyflenwi yn y tymor byr i ganolig, yn cael canlyniadau cadarnhaol ar gyfer datblygiad tymor hir ynni adnewyddadwy morol.

Mae'r Llywodraeth Cynulliad Cymru presennol wedi gosod targedau uchelgeisiol i gynhyrchu trydan adnewyddadwy yn ei Datganiad Polisi Ynni Chwyldro

Carbon Isel.¹ Mae'r diwydiant yn cefnogi'r nodau hyn yn llwyr a bydd yn gweithio gydag unrhyw Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol yn y dyfodol i sicrhau y cyflawnir yr awydd a rennir i gael rhagor o ynni adnewyddadwy.

Fodd bynnag, bydd yn dyngedfennol i'r Llywodraeth nesaf ddeall beth fu'r prif rwystrau ar gyfer cyflawni targedau yn y gorffennol. Yn anad dim, bydd RenewableUK Cymru yn ceisio arweiniad clir a phenderfyniad gan Lywodraeth Cymru wrth iddi ddilyn ei nodau a'i rhwymedigaethau ynni adnewyddadwy. Cyfrifoldeb y diwydiant ynni adnewyddadwy, ei randdeiliaid a Llywodraeth Cymru yw ceisio ffyrdd i oresgyn yr heriau fel ein bod i gyd yn gallu symud ymlaen.

Mae'r manifesto hwn yn nodi beth y mae'r diwydiant ynni adnewyddadwy yn credu sydd ei angen i gynorthwyo i gyflawni ei dargedau ynni adnewyddadwy fel bod Cymru'n gallu dod yn fwy cynaliadwy.

1. wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/energy/renewable/policy/lowcarbonrevolution/?lang=en

Trosolwg

Yn y 1990au daeth Cymru'n wlad arloesol mewn ynni adnewyddadwy wrth iddi arwain y ffordd mewn sefydlu un o'r ffermydd gwynt ar y tir cyntaf yn y DU.

Targedau allweddol:

1. Bodloni targedau ynni adnewyddadwy 2010 yn llawn cyn gynted â phosibl drwy ddarparu arweiniad a hwyluso symud rhwystrau.
2. Ymrwymo i gyflawni targedau ynni adnewyddadwy newydd a osodwyd gan y Datganiad Polisi Chwyldro Carbon Isel drwy fanteisio'n llawn ar dechnolegau ynni adnewyddadwy, yn cynnwys technolegau aeddfed megis gwynt ar y tir sydd yn barod ac yn disgwyl i gael eu defnyddio.

Edwinodd y dechrau addawol hwn a phenderfynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru bod angen ymagwedd strategol. O gofio nad yw materion ynni wedi eu datganoli, canolbwyntiwyd ymdrechion gan y weithrediaeth yng Nghymru ar siapio'r system gynllunio i fod yn fwy ffafriol tuag at geisiadau cynllunio ynni adnewyddadwy. Adwaenir y canllawiau cynllunio cenedlaethol, a gynhyrchwyd yn 2005, fel Nodyn Cyngor Technegol 8 (TAN 8).

TAN 8

Cwmpasodd TAN 8 gynllunio ar gyfer pob math o dechnolegau ynni adnewyddadwy ac anelodd at gyflenwi targed 10% o ynni wedi'i gynhyrchu o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2010. Er mwyn cyflawni'r targed hwn rhoddwyd y pwysau mwyaf i ynni gwynt gan ei bod yn cael ei chydabod mai'r "unig ffordd, gyda thechnoleg fel y mae

yn awr, i gyrraedd y targed yw drwy ddefnyddio ynni gwynt".² Rhoddwyd targed technoleg benodol i ynni gwynt ar y tir i gynhyrchu 800MW ychwanegol erbyn 2010, tra gosodwyd targed o 200MW ychwanegol ar gyfer gwynt ar y môr. Nodwyd saith Ardal Chwilio Strategol i arwain lle dylid datblygu ffermydd gwynt graddfa fawr ar y môr.

Cafwyd llawer o ymdrech a buddsoddiad gan ddatblygwyr ynni gwynt, a'r diwydiant yn ehangach, i geisio bodloni'r targedau hyn. Mae'n anffodus ac yn rhwystredigaeth nad yw'r gallu ychwanegol wedi'i gyflawni - yn arbennig y targed 800MW ychwanegol o ynni gwynt ar y tir. Mae'r rhesymau dros y diffyg cynnydd hwn wedi bod yn amrywiol a chymhleth ac mae'n cynnwys arafwch penderfynu ar geisiadau gan awdurdodau cynllunio, diffyg seilwaith grid ac anawsterau canfyddedig cludo tyrbinau i'r safleoedd a glustnodwyd ar gyfer adeiladu.³

Gweithio ar y cyd

Er gwaethaf hyn, gallwn fod yn gadarnhaol am y defnydd gwynt ar y tir ac ar y môr yng Nghymru yn y dyfodol a dyfodiad technolegau morol. Ceir ffermydd gwynt sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio sy'n aros i gael eu codi, ac mae llawer rhagor sy'n cael eu paratoi neu sy'n barod o fewn y system gynllunio yn disgwyl penderfyniad. Yn wir, mae mwyn na digon o weithgaredd gan ddatblygwyr ynni gwynt ar y môr ac ar y tir i fynd ymhell y tu hwnt i hen dargedau 2010 a chyfrannu cyfran sylweddol i dargedau newydd 2020. Er mwyn sicrhau bod y prosiectau hyn yn gwneud cyfraniad tuag at dargedau ynni glân, mae angen ymrwymiad gan lywodraeth, diwydiant a rhanddeiliaid i oresgyn rhwystrau cyfredol cyflenwi.

2. Carwyn Jones, Gweinidog yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, 13 Chwefror 2007

3. Am ragor o wybodaeth ewch i www.bwea.com/wales/index.html

Cyfraniad economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol

Caiff Cymru fudd eang o ddatblygu technolegau ynni adnewyddadwy. Ers sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol bu pwyslais cryf ar ddatblygiad cynaliadwy.

Targedau allweddol:

- Ymrwymo arian a chefnogaeth i ddatblygu porthladdoedd Cymru.
- Canolbwyntio cefnogaeth busnes ar fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy.
- Safoni llwybr mynediad Cymru ar gyfer hyfforddiant sgiliau.
- Gweithio gyda diwydiant i sefydlu lleiafswm gofynion ar gyfer cronfeydd budd cymunedol.

Yn wir, gwnaeth y ddeddfwriaeth a greodd y sefydliad hyrwyddiad datblygiad cynaliadwy yn ofyniad cyfreithiol, ac mae sawl strategaeth ers hynny wedi canolbwyntio ar sut i wella ansawdd cyffredinol bywyd, yn cynnwys agweddau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Newid hinsawdd

Mae ynni adnewyddadwy wrth wraidd hyrwyddo ynni cynaliadwy. Mewn termau amgylcheddol, mae'n lleihau'r angen am ynni wedi ei gynhyrchu o danwydd ffosil, ac felly lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n cyfrannu at newid hinsawdd byd-eang. Mae'r nod hwn yn gyson ag ymrwymiad y Llywodraeth bresennol i leihau allyriadau gan 3% y flwyddyn a gan 40% ar lefelau 1990 erbyn 2020. Mae hefyd yn gyson ag ymdrechion gan Lywodraeth y DU, yr Undeb Ewropeaidd a chytundebau rhyngwladol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Sicrwydd cyflenwad a fforddiadwyedd

Bydd y twf mewn ynni adnewyddadwy yn cyfrannu tuag at sicrhau cyflenwad ynni a fforddiadwyedd cyffredinol ynni. Bydd lleihad cynyddol tanwydd ffosil traddodiadol, megis olew a nwy, yn arwain at gostau uwch a chyfyngiad

ar y dosbarthiad yn fyd-eang. O ganlyniad, bydd rhagor o bobl a chymdeithasau yn brwydro i fforddio cost eu gofynion ynni. Bydd datblygiadau mewn pob ffurf ar ynni adnewyddadwy yn sicrhau bod y DU yn dod yn llai dibynnol ar yr angen am danwydd ffosil. Bydd cynyddu'r cyflenwad o ffynonellau ynni eraill hefyd yn cynorthwyo i sefydlu cynnydd mewn cost a thrwy hynny fynd i'r afael â materion fforddiadwyedd megis flodi tanwydd. Mae sicrhau cyflenwad ynni a fforddiadwyedd yn faterion economaidd a chymdeithasol sy'n gysylltiedig i'r angen am ynni adnewyddadwy.

Cyflogaeth a CMC

Mae ynni adnewyddadwy hefyd yn rhoi manteision economaidd, drwy greu cyflogaeth a chynhyrchu incwm ar gyfer yr ardaloedd lleol sy'n eu cynnal. Amcangyfrifodd arolwg a gynhaliwyd yn 2010 y gallai'r sector gwynt fod yn cyflogi dros 1,000 o bobl ar gyflogau cyfartalog uwch yng Nghymru erbyn 2012.⁴

Cred RenewableUK Cymru y bydd manteision economaidd enfawr ar gyfer Cymru o gofleidio'r technolegau ynni adnewyddadwy. Canfu ein harolwg bod y sector eisoes yn cyfrannu £158 miliwn y flwyddyn i economi Cymru, ac amcangyfrifir y bydd hyn yn tyfu i £1 biliwn y flwyddyn, neu 2.2% o'r CMC, erbyn diwedd y degawd hwn. Yr her i bawb ohonom yw sicrhau bod cymaint â phosibl o'r trosiant hwn yn cael ei gadw yng Nghymru, drwy gefnogi cyfleoedd busnes drwyddi draw yn y gadwyn cyflenwi.

Mae'n angen pwysleisio cyfraniad uniongyrchol y gallai defnydd priodol o wynt ar y tir ddwyn i'r economi a fyddai'n gwneud llawer i sicrhau hyder buddsoddwyr yn y dyfodol mewn dewisiadau posibl eraill, megis technolegau morol ym Moryd Hafren.

Porthladdoedd Cymru

Mae safleoedd gwynt ar y môr sy'n cael eu datblygu oddi ar arfordir gorllewinol Prydain hefyd yn rhoi cyfleoedd adeiladau, gweithgynhyrchu, cyflenwi a gwasanaeth ar gyfer cwmnïau a phorthladdoedd Cymru. Er mwyn sicrhau bod gan borthladdoedd Cymru y seilwaith i ddenu buddsoddiad a datblygu gallu gweithgynhyrchu, cyflenwi a gwasanaeth, rhaid i Lywodraeth Cymru wneud yr un cyhoeddiad grantiau datblygu ag a wnaed yn Lloegr a'r Alban. Er bod RenewableUK Cymru yn ymwybodol bod gwaith yn mynd rhagddo y tu ôl i'r llenni i gynorthwyo porthladdoedd Cymru, bydd yn hollbwysig i gyhoeddi'n fuan argaeledd grantiau cymorth a strategaeth ymarferol os yw buddsoddwyr i'w denu.

Budd Cymunedol

Disgwylir i daliadau budd cymunedol, a delir fel arfer gan weithredwyr ffermydd gwynt i'r gymuned leol (ar gyfer prosiectau ar y tir ac ar y môr), gyfrannu miliynau o bunnoedd i economïau lleol Cymru yn y blynyddoedd i ddod - cronfeydd a gânt eu rhoi ar gael ar gyfer rhaglenni amgylcheddol a chymdeithasol.

Ar gyfer prosiectau ar y tir, telir budd cymunedol fel arfer gan y gweithredwyr ffermydd gwynt ar sail bob megawat a osodir. Mae trafodaethau diweddar a ddechreuwyd gan y diwydiant gwynt yn Lloegr wedi deillio ar greu protocol gwirfoddol ar gyfer budd cymunedol gwynt ar y tir, a fyddai'n cael ei archwilio'n annibynnol a'i gadw ato gan aelodau RenewableUK.

Mae'r un egwyddorion ar gyfer budd cymunedol yn gymwys i Gymru ac maent yn cynnwys hyblygrwydd, tryloywder a chytundeb i weithio gyda llywodraeth leol a'r cymunedau lleol yr effeithir arnynt. Gallai fod rhai gwahaniaethau i'r modelau protocol yng Nghymru o ganlyniad i leoli ffermydd gwynt graddfa fawr yn strategol mewn ardaloedd chwilio. Mae RenewableUK Cymru am weld Llywodraeth Cymru a Phwyllgor Cynaliadwyedd y Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio gyda'r diwydiant i nodi isafswm y gofynion ar gyfer budd cymunedol ac i drafod y gyfundrefn ym mha un y byddant yn gweithredu ynddi.

Ar gyfer prosiectau ar y môr, mae'n rhy gynnar i ddatblygu protocol. Mae'r adran hon o'r diwydiant gwynt yn llai aeddfed ac felly nid oes ymarfer safonol y gellir ei ffurfioli. Mae prosiectau tonnau a llanwol hyd yn oed ar gam cynharach ac ni allant ffitio i system a ragnodir. Hefyd, gall cymuned ar y môr gael ei phennu mewn mwy o ffyrdd na'r rhai ar y tir, ac mae angen i brosiectau unigol gael hyblygrwydd i nodi ac ymgysylltu â'u cymunedau yn y modd mwyaf priodol.

Gwynt ar y tir

Mae gwynt ar y tir wedi bod ar y blaen yn yr ymdrech i gynyddu gallu ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn ystod y ddau ddegawd diwethaf.

Targedau allweddol:

- Cynhyrchu cynllun cyflenwi ar y tir, gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi arweiniad amlwg i gyflenwi polisi.
- Ail-edrych ar TAN 8, gan ddiogelu ardaloedd datblygu presennol tra'n nodi ardaloedd newydd.
- Dangos rhagdyb cynllunio clir o blaid y datblygiadau a gynigir o fewn ardaloedd SSA.
- Peidio â chaniatáu newidiadau mawr i ffiniau a nodwyd.
- Darparu adnoddau ac offer cefnogi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (e.e. uwch swyddog) i gynorthwyo Awdurdodau Cynllunio Lleol i gyflenwi "cynlluniau lleol".
- Trosglwyddo unrhyw bwerau a ddatganolir ymhellach i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn hytrach na'r Awdurdodau Cynllunio Lleol.
- Penderfyniad ar bwerau datblygu cysylltiedig i'w galw i mewn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae diddordeb datblygwyr yn dal yn uchel ac mae swm sylweddol o ymdrech a buddsoddiad mewn datblygu ffermydd gwynt newydd a fydd yn cyfrannu i dargedau ynni adnewyddadwy. Mae'r gallu cyfan sydd ar hyn o bryd yn disgwyl cael cymeradwyaeth dair gwaith yn fwy na'r gallu sydd ar waith yn barod. Mae prosiectau eraill wedi derbyn caniatâd cynllunio ac yn disgwyl cael eu codi, ac mae llawer o brosiectau gwynt posibl sy'n cael eu paratoi ar gyfer eu cyflwyno i'r system gynllunio. Os ystyriwn yr holl brosiectau hyn ar y cyd, yna mae'r potensial o ran cyfrannu at ynni adnewyddadwy o wynt ar y tir eisoes yn agos at y 2GW, sef targed cyfredol Datganiad Polisi Chwyldro Carbon IseL y Llywodraeth. Mae manteision clir yn amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol i harneisio'r potensial hwn yn llawn.

Ceir sawl rhwystr sydd ar hyn o bryd yn oedi cyflawniad potensial ynni gwynt ar y tir, fel y crybwyllwyd yn yr adran Trosolwg. Cred RenewableUK Cymru bod yr holl rwystrau hyn yn rhai y gellir eu goresgyn ac y gall y potensial gael ei gyflawni. Wrth oresgyn rhai rwystrau, fodd bynnag, mae angen ymagwedd ragweithiol gan Lywodraeth Cymru.

Arweiniad

Gan fod bodloni targedau ynni adnewyddadwy yn y pen draw yn gyfrifoldeb llywodraeth, credwn fod yn rhaid i

Ffermydd gwynt ar y tir yng Nghymru:

Gweithredol	32	380MW
Yn cael eu codi	17	271MW
Yn y system gynllunio	24	1,279MW
Cyfanswm	73	1,930MW

Llywodraeth Cymru gymryd y cam cyntaf a rhoi arweiniad clir ac amlwg. Mae gan y Llywodraeth yr awdurdod a'r gallu i chwarae rôl weithredol mewn mynd i'r afael a llawer o broblemau, a fydd yn cynyddu cyfradd y cyflenwi, fel sydd weithiau wedi'i ddangos gyda rhai o'r heriau hyn. Bydd cynorthwyo i gynyddu'r gyfradd cyflenwi yn sicrhau y caiff targedau'r Llywodraeth ei hun eu bodloni gan y diwydiant. Dylai'r Llywodraeth edrych ar y cwestiwn yn strategol a pharatoi cynllun manwl ar sut i gyflawni ei dargedau.

Ar hyn o bryd mae materion grid a thrafnidiaeth yn rhwystr i gyflenwi targedau gwynt ar y tir 2010 ac mae RenewableUK Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau y cânt eu goresgyn. Mae gan Lywodraeth Cymru rôl bwysig i sicrhau bod pob partner yn gweithio'n adeiladol ar y cyd i ddod o hyd i atebion amserol. Yn arbennig, mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru rôl mewn cyfathrebu i'r cyhoedd angen a rôl uwchraddio a llinellau newydd er mwyn cyflawni amcanion ynni adnewyddadwy Cymru.

Ardaloedd newydd

Y ddogfen ddiffiniol ar gyfer y diwydiant gwynt ar y tir yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf fu TAN 8. Mabwysiadodd y diwydiant ymagwedd strategol, o'i gyferbynnu â meini prawf, tuag at leoli ffermydd gwynt graddfa fawr. Fodd bynnag, mae cyfeirio pob datblygiad sylweddol i ddim ond saith Ardal Chwilio Strategol (SSA) wedi deillio ar effeithiau cronus, oherwydd crynodiad nifer o ffermydd gwynt yn yr un gymdogaeth. Mae datblygwyr wedi dilyn y canllawiau polisi a nodir yn TAN 8 ac wedi canolbwyntio'u hymdrechion a'u buddsoddi ar yr ardaloedd dynodedig presennol. Mae'n rhaid cynnal statws y rhain fel ardaloedd ar gyfer datblygiad posibl ffermydd gwynt graddfa fawr. Fodd bynnag, er mwyn cynyddu gallu gwynt ar y tir mewn modd a fydd yn cyfyngu dwysedd tyrbinau ac effeithiau ychwanegol, mae RenewableUK Cymru wedi galw am ail-edrych ar TAN 8, er mwyn nodi ardaloedd newydd sy'n addas ar

gyfer eu datblygu. Gallai hyn fod ar ffurf nodi safleoedd SSA ychwanegol, ymestyn safleoedd SSA neu fabwysiadu ymagwedd seiliedig ar feini prawf ar gyfer safleoedd y tu hwnt i'r ardaloedd SSA presennol.

Awdurdodau lleol

Mae TAN 8 yn sefydlu'n glir yr egwyddor y dylai ffermydd gwynt ar raddfa fawr gael eu datblygu o fewn yr ardaloedd SSA, ac mae rhagdyb o blaid ceisiadau ffermydd gwynt yn yr ardaloedd hyn. Ni chaiff yr arweiniad hwn ei gymhwyso'n gyson gan Awdurdodau Cynllunio Lleol (LPA) yng Nghymru. Mae rhai LPA wedi gwneud penderfyniadau sydd yn groes i argymhellion eu swyddogion cynllunio eu hunain a pholisi cynllunio cenedlaethol. Bu rhai cyrff statudol hefyd yn anghyson wrth wneud sylwadau ar gynigion. Mae RenewableUK Cymru yn gofyn i'r Llywodraeth etholedig ddefnyddio ei hawdurdod a'i chyfreithlondeb i danlinellu'r brys a'r angen i gyflenwi prosiectau ynni adnewyddadwy. Awgrymir bod Llywodraeth Cymru yn monitro'r cynnydd tuag at y targedau ac yn defnyddio'i phwerau galw i mewn lle bo'n briodol er mwyn penderfynu ei hun ar geisiadau cynllunio.

Gwnaeth dogfen TAN 8 ddarpariadau ar gyfer LPA i wneud addasiadau bach i ffiniau SSA. Fodd bynnag, mewn proses hir cafodd hyn ei gamddefnyddio. Deilliodd hyn ar i rai awdurdodau awgrymu addasiadau mawr sy'n lleihau maint yr ardaloedd gwreiddiol yn fawr. Croesawa RenewableUK Cymru y pwyslais diweddar yn ymgynghoriad Adran 12 Polisi Cynllunio Cymru (PPW), sy'n rhybuddio yn erbyn newidiadau lleol i ffiniau TAN 8 drwy gynlluniau datblygu.

Mae'r diwydiant yn cydnabod bod ceisiadau cynllunio ffermydd gwynt yn aml yn gymhleth ac yn denu diddordeb lleol sylweddol. O fewn ardaloedd SSA, mae llawer o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi eu tan-adnoddau ac maent ar hyn o bryd yn delio â nifer sylweddol o geisiadau cynllunio ffermydd gwynt. Mae'r pwysau yn debyg o gynyddu, yn arbennig os, fel sy'n cael ei awgrymu yn ymgynghoriad PPW, y bydd awdurdodau lleol yn gyfrifol am nodi cyfleoedd a safleoedd ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy o hyd at 25MW yn eu hardaloedd.

Mae RenewableUK Cymru yn gwerthfawrogi cyflwyniad pamffled "Pecyn Cymorth" gan y Llywodraeth bresennol ac argaeledd cynllun grant a fydd yn cynorthwyo awdurdodau lleol. Fodd bynnag, ystyrir nad yw'r adnoddau na'r arbenigedd gan yr LPA i gefnogi ymarferiadau asesu wedi eu cynllunio i nodi'r gallu ynni adnewyddadwy yn eu hardaloedd. Er mwyn cynorthwyo ymhellach y gwaith sydd ei angen rydym yn galw am grantiau cymorth mwy a pharhaol a dulliau arloesol eraill i gynorthwyo LPA, megis sefydlu gallu arbenigedd ffermydd gwynt o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru y gall fod ar gael i gynghori LPA priodol, yn ogystal â chlustnodi uwch swyddogion i gynorthwyo i gyflenwi cynlluniau lleol.

Pwerau pellach

Mae RenewableUK Cymru yn cydnabod y polisi hirsefydledig sydd gan y pedair prif blaid wleidyddol yn y Cynulliad Cenedlaethol ar i benderfyniadau cynllunio ar brosiectau sydd dros 50MW gael eu datganoli. Bydd aelodau RenewableUK Cymru yn ceisio gweithio'n gadarnhaol gydag unrhyw gyfundrefn newydd. Serch hynny, oherwydd y pwysigrwydd cenedlaethol a'r angen strategol i gyflenwi ynni adnewyddadwy byddem yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw newid fyddai'n golygu bod y pwerau gwneud penderfyniadau datganoledig hyn yn cael eu trosglwyddo i awdurdodau lleol. Mae'n rhaid i benderfyniadau ar brosiectau seilwaith sydd o arwyddocâd cenedlaethol gael yr adnoddau cywir a'u cysylltu â'r arbenigedd ynni proffesiynol sydd ar gael yn Arolygiaeth Cynllunio Cymru.

Byddai datganoli pwerau cynllunio pellach yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru ddangos ei hymrwymiad i gyflenwi ynni adnewyddadwy, a dylid defnyddio unrhyw bwerau cynllunio datganoledig i gynyddu cyfradd eu defnyddio. Pe câi pwerau pellach eu datganoli o ran hyn byddai'n hollbwysig bod y Llywodraeth yn cymryd y cyfrifoldeb uniongyrchol ar ganiatâd ar gyfer prosiectau dros 50MW, gyda'r Gweinidog yn gwneud y penderfyniad terfynol seiliedig ar asesiad a ddarperir gan Arolygiaeth Cynllunio Cymru.

Datblygiadau cysylltiedig

Ar hyn o bryd mae awdurdodau lleol yn penderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer "ddatblygiadau cysylltiedig" sy'n cysylltu i brosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol, a benderfynir gan y Comisiwn Cynllunio Seilwaith (IPC). Mae hyn yn wahanol i'r gyfundrefn yn Lloegr, lle gall yr IPC ystyried datblygiadau cysylltiedig ochr yn ochr â phenderfyniadau a wneir ar brosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol. Yng Nghymru bydd yr IPC yn penderfynu ar geisiadau am ffermydd gwynt dros 50MW a llinellau grid newydd dros 132kV; fodd bynnag, caiff yr is-orsafodd grid hanfodol eu penderfynu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

O gofio'r pwysigrwydd strategol sydd gan ddatblygiadau cysylltiedig mewn prosiectau seilwaith arwyddocaol, barn RenewableUK Cymru yw y dylai Llywodraeth y Cynulliad ddefnyddio ei phwerau galw i mewn i benderfynu ar y ceisiadau hyn. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn achos cynigion ynni adnewyddadwy, sydd yn hollbwysig i fodloni targedau ynni adnewyddadwy y Llywodraeth.

Gwynt ar y môr

Yn 2009, daeth y DU yn arweinydd byd-eang o ran gallu gosodedig ar gyfer ynni gwynt ar y môr.

Targedau allweddol:

1. Cynhyrchu cynllun cyflenwi gwynt ar y môr yn dangos sut y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru gynorthwyo yn y gwaith o gomisiynnu ffermydd gwynt ar y môr.
2. Pwyllgor Cynaliadwyedd i graffu ar y Gweinidog a'r diwydiant o ran cyfradd cyflenwi ynni ar y môr.
3. Sicrhau bod Parthau Cadwraeth Morol ddim o angenrheidrwydd yn andwyo neu'n cyfyngu ar allu safleoedd ynni adnewyddadwy morol.
4. Sicrhau bod gan Uned Forol Llywodraeth Cynulliad Cymru ddigon o adnoddau a bod ganddi'r arbenigedd angenrheidiol.

Mae gwynt ar y môr yn ffynhonnell ynni sy'n tyfu'n gyflym a fydd yn gwneud cyfraniad sylweddol i dargedau'r Undeb Ewropeaidd a osodwyd ar gyfer 2020. Ar hyn o bryd ceir rhaglen â'r potensial ar gyfer gwynt ar y môr gwerth 47GW i'w datblygu, a fyddai'n gyfwerth â rhagor nag un rhan o dair o ddefnydd trydan y DU. Amcangyfrifwyd bod gallu gwynt ar y môr a godwyd ar wely'r môr yn 116GW.⁵ Pe datblygid hyn, byddai'r DU yn dod yn allforiwr trydan net.

Daeth Cymru'n arweinydd cynnar o ran ffermydd gwynt ar y môr gyda Gogledd Hoyle yn dod yn brosiect ynni adnewyddadwy ar y môr mawr cyntaf y DU, wedi'i gomisiynu yn 2003. Dilynodd Gwastadeddau Rhyl yn 2009, ac yn awr mae disgwyliad mawr ar gyfer prosiect Gwynt y Môr, a fydd yn un o'r ffermydd gwynt ar y môr mwyaf yn y byd pan ddaw i weithrediad yn 2014.

Mae gwynt ar y môr wedi datblygu mewn cyfres o rowndiau prydlesu cystadleuol, a weinyddir gan Ystad y Goron, sef landlord a stiward gwely'r môr yn y DU. Cyhoeddwyd dwy rownd a gwnaed trydydd un yn derfynol ar ddechrau 2010. O ganlyniad i Rownd Tri cafodd dau safle ychwanegol eu nodi ar gyfer datblygu ynni posibl oddi ar arfordir Cymru - safle Atlantic Array sydd â photensial gallu gwerth 1.5GW, a'r safle Môr Iwerddon â 4GW. Gyda'i gilydd mae ganddynt y potensial i bweru hyd at bedair miliwn o gartrefi. Mae'r cyfraniad cronuss o'r safleoedd ffermydd gwynt ar y môr presennol, cymeradwyedig a'r rhai a gynllunnir yn mynd ymhell y tu hwnt i dargedau cyfredol Llywodraeth Cymru, a osodir yn y Datganiad Polisi Chwyldro Carbon Isel sydd i'w gyrraedd erbyn 2015/16.

Cynllun cyflenwi

Mae RenewableUK Cymru yn croesawu'r twf a'r gefnogaeth a ddangoswyd i ddatblygiadau ar y môr gan Lywodraeth

Cymru. Fodd bynnag, er mwyn dwyn y potensial i ffrwyth, mae RenewableUK Cymru yn galw am lunio Cynllun Cyflenwi ar y Môr manwl, yn amlinellu'n glir beth ellir ei wneud ar lefel Cymru i gynorthwyo comisiynu prydlon y prosiectau gwynt ar y môr hyn.

Craffu

Dylid craffu'n drylwyr ar lwyddiant neu fethiant cyflawni targedau ynni adnewyddadwy yn y dyfodol. Er y bydd penderfyniadau ar ffermydd gwynt ar y môr y tu allan i gyfrifoldeb awdurdodau lleol ac fel arfer rôl Llywodraeth y Cynulliad, byddant yn cadw rôl ddylanwadol mewn gwneud penderfyniadau.

Mae RenewableUK Cymru yn gofyn i Bwyllgor Cynaliadwyedd nesaf Llywodraeth y Cynulliad (neu ei olynydd) graffu'n rheolaidd ar y Gweinidog a'r diwydiant o ran y cynnydd cyfredol tuag at gyflawni targedau ynni adnewyddadwy fel y'u nodir yn y Datganiad Polisi Chwyldro Carbon Isel.

Cynllunio morol

Mae proses barhaus yn digwydd ar hyn o bryd i nodi Parthau Cadwraeth Morol o amgylch arfordir Prydain. Mae'r Llywodraeth Cymru bresennol wedi dangos bod yn well ganddi weld sefydlu nifer bach o ardaloedd a warchodir yn gadarn - a fyddai â chyfyngiadau llawer mwy ar weithgaredd masnachol posibl na'r Parthau Cadwraeth Morol eraill. Tra bod cadwraeth yn hollbwysig i'r amgylchedd morol, dylai cynllunio morol gydbwysu holl elfennau datblygiad cynaliadwy, yn cynnwys yr angen am ynni adnewyddadwy a gweithgarwch economaidd-gymdeithasol. Ni ddylai cynllunio fod wedi ei or-ganolbwyntio ar faterion cadwraeth ecolegol uwchlaw pob gweithgaredd arall. Ni ddylai Parthau Cadwraeth Morol o angenrheidrwydd andwyo neu gyfyngu ar allu safleoedd a ddynodir ar gyfer datblygiad ynni adnewyddadwy morol.

Dylai Uned Forol Llywodraeth y Cynulliad gael digon o adnoddau a chael yr arbenigedd angenrheidiol i gynnal yr un swyddogaethau ag sy'n gyfrifoldeb ar y Sefydliad Rheoli Morol yn Lloegr. Wrth i wynt ar y môr gynyddu, bydd y galw ar swyddogion yn cynyddu ac mae'n rhaid i Llywodraeth Cynulliad Cymru gynllunio'n ddigonol ar gyfer hyn.

Fel y dywedir uchod, gall buddsoddiad mewn ffermydd gwynt ar y môr roi manteision economaidd anferth i fusnesau a'r gweithlu yng Nghymru. Bydd RenewableUK Cymru yn gweithio gyda llywodraeth i amlgygu astudiaethau achos o blith busnesau Cymru sydd eisoes yn elwa ac i nodi beth sydd angen ei wneud er mwyn i'r tuedd hwn gynyddu a pharhau.

Tonnau a llanwol

Yn ogystal â gwynt ar y môr, ceir ffynonellau ynni morol eraill sy'n disgwyl i gael eu manteisio arnynt.

Targedau allweddol:

1. Cynhyrchu cynllun cyflenwi yn dangos sut i gyflawni targedau uchelgeisiol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer technolegau tonnau allanwol.
2. Ymchwilio posibiliadau i gyflwyno technolegau morol amgen ym Moryd Hafren.
3. Y rownd brydlesu i'w thynnu ymlaen gan Ystad y Goron ar gyfer ardaloedd tonnau a llanwol.
4. Sicrhau digon o adnoddau ac arbenigedd ar gyfer Uned Forol Llywodraeth Cynulliad Cymru.
5. Manteisio i'r graddau mwyaf posibl ar gronfeydd yr UE ar gyfer ymchwil a datblygu ar gyfer safleoedd profi i dechnolegau adnewyddadwy morol.

Nid yw'r technolegau embryonig llif llanwol a thonnau yn cynhyrchu trydan wedi'i gysylltu i'r grid yng Nghymru ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae gan y Datganiad Polisi Chwyldro Carbon Isel dargedau uchelgeisiol i gynhyrchu hyd at 4GW o ynni o'r technolegau hyn erbyn 2020/5. Mae RenewableUK Cymru yn croesawu ac yn cefnogi uchelgais y Llywodraeth Cymru presennol yn llawn, ac yn galw am gynllun cyflenwi manwl i fapio sut y gellir cyflawni'r dyheadau beiddgar hyn.

Mae'r DU ar flaen y gad yn y diwydiant tonnau a llanwol, drwy ei rhaglenni ymchwil a datblygu a'i chyfleusterau profi. Bydd trosglwyddiad llwyddiannus y technolegau hyn i'r cam masnachol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i dargedau ynni adnewyddadwy, a hefyd yn cynnig cyfleoedd economaidd a busnes newydd.

Moryd Hafren

Mae ardaloedd a nodwyd fel rhai â photensial mawr ar gyfer ynni tonnau a'r llanwol yn cynnwys Moryd Hafren, oddi ar arfordir Sir Benfro ac oddi ar arfordir Ynys Môn. Yn ddiweddar cynhaliodd Llywodraethau y DU a Chymru astudiaeth ddichonadwy i'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy ym Moryd Hafren. Mae'r opsiynau ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy yn y foryd wedi cael eu trafod am sawl blwyddyn, gan ddiweddu gyda phenderfyniad Llywodraeth Glymblaid bresennol y DU i beidio â bwrw 'malen â chynlluniau ar gyfer morglawdd ystod llanwol ar raddfa fawr. Barn RenewableUK Cymru yw na ddylai'r penderfyniad teilwng hwn atal syniadau ac ymdrechion i groesawu technolegau amgen, yn cynnwys posibiliadau technoleg clawdd llanwol.

Gan fod ganddi un o'r ystodau llanwol mwyaf yn y byd, ni ddylid anwybyddu potensial Moryd Hafren i gynhyrchu symiau mawr o ynni adnewyddadwy dim ond oherwydd

bod technoleg ystod llanwol traddodiadol sengl yn awr wedi ei barnu'n anymarferol. Mae RenewableUK Cymru yn galw ar y Llywodraeth Cymru nesaf i nodi Moryd Hafren fel ardal diddordeb o bwys ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy ac ailasesu'r dewisiadau technegol sydd ar gael ar gyfer datblygu prosiect.

Ardaloedd strategol tonnau a llanwol

Mae RenewableUK Cymru yn ymwybodol bod y Llywodraeth bresennol yn ystyried gofynion seilwaith sydd eu hangen i ddatblygu safleoedd profi, arddangos a masnachu ar gyfer y sector ynni morol yng Nghymru. Cefnogwn yr asesiad hwn a byddem yn annog Ystad y Goron i weithio gyda'r Llywodraeth nesaf i ddechrau rownd brydlesu o brosiectau tonnau a llanwol fel ag a welwyd yn ardal forol Pentland Firth yn yr Alban.

Ni ddylai pennu Parthau Cadwraeth Morol andwyo'n ddiangen y posibilrwydd ar gyfer datblygiadau ynni tonnau a llanwol o fewn neu yng nghyffiniau ardaloedd dynodedig. Bydd RenewableUK Cymru yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid morol eraill, drwy gyrff megis Partneriaeth Arfordir a Môr Cymru (WCMP), i sicrhau bod Cynulliad Cymru yn derbyn cyngor digonol ar ddynodiadau Parthau Cadwraeth Morol, ac edrychwn ymlaen at ymateb i'r ddogfen ymgynghori "Ein Dull o Ymdrin â Chynllunio Morol yng Nghymru" a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Ariannu ac adnoddau

Mae technolegau adnewyddadwy morol yn dal yn eu camau cynnar ac yn bell o gael eu masnacheiddio ar raddfa fawr. Mae'n bwysig sicrhau bod gan Uned Caniatadau Morol Llywodraeth Cymru ddigon o adnoddau a'i bod yn cynyddu ei harbenigedd ynni morol i'w galluogi i gymryd camau digonol a fydd yn cefnogi datblygiadau ynni morol.

Bydd datblygu technolegau morol fel eu bod yn gallu, yn y pen draw, gyfrannu i dargedau ynni adnewyddadwy yn gofyn am ariannu ymchwil a datblygu parhaus, ymchwil academaidd a dyrannu manau profi. Mae RenewableUK Cymru yn galw am barhau â'r gwaith ymchwil academaidd a gynhaliwyd gan y grŵp Sefydliad Ymchwil Carbon Isel (LCRI). Mae'r LCRI wedi sicrhau £34 miliwn dros y tair blynedd nesaf gan Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd a weinyddir gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Croesawn y bydd ffocws yr ariannu hwn yn galluogi prifysgolion a'u partneriaid mewn diwydiant i arwain y ffordd mewn ymchwil ynni carbon isel a byddem yn pwysleisio agenda technolegau ynni morol. Byddai RenewableUK Cymru yn hoffi ymchwilio posibiliadau gwneud y mwyaf o ariannu Ewropeaidd ar gyfer ymchwil a datblygu a datblygiad technoleg ar gyfer technolegau tonnau a llanwol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, LCRI a WEFO, a galw ar Lywodraeth Cymru i gychwyn ac arwain yn y broses hon.

RenewableUK

Greencoat House
Francis Street
London, SW1P 1DH
Tel: +44 (0)20 7901 3000
Fax: +44 (0)20 7901 3001
www.renewable-uk.com

RenewableUK Cymru

Temple Court
13a Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9HA
Tel: +44 (0) 29 2022 0700